# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL

# CYFARFOD Y CYNGOR: 27 CHWEFROR 2014

---

**CYNNIG Y CABINET** **EITEM AGENDA:**

---

**CYNLLUN CORFFORAETHOL 2014-2017**

**Diben yr Adroddiad hwn**

1. Galluogi'r Cyngor i ystyried Cynllun Corfforaethol drafft y Cyngor ar gyfer 2014-2017.

**Cefndir**

2. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhan o'r fframwaith polisi strategol a nodwyd yng nghyfansoddiad y Cyngor. Caiff y Cynllun Corfforaethol ei ystyried yn flynyddol gan y Cyngor. Mae'r ddogfen yn amlinellu blaenoriaethau polisi strategol yr Awdurdod ac yn rhan o'r fframwaith gwella statudol gofynnol gan ei fod yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi cynllun cam un, sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella. Fel arfer mae'r Cynllun Corfforaethol yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, a chaiff ei ddiweddaru'n flynyddol.

2. Rhaid i'r Cyngor lunio Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2014-2017 yng nghyd-destun yr heriau ariannol dybryd sy'n wynebu llywodraeth leol, sydd wedi'i gwneud yn ofynnol i sicrhau arbedion gwerth tua £52 miliwn ar gyllideb 2014/2015, gyda'r posibilrwydd o orfod arbed £65 miliwn arall ar y gyllideb rhwng 2015/16 a 2016/17. Mae'r toriadau ariannol hyn, ynghyd â phoblogaeth sy'n tyfu a mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus, yn golygu bod y Cyngor yn wynebu heriau nas gwelwyd eu math o'r blaen o ran sut y bydd yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Yn sgîl hyn, rhaid i'r Cyngor ganolbwyntio'i adnoddau prin ar lai o flaenoriaethau a chanlyniadau allweddol.

3. Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Cymru a thîm Adolygiad Cymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), fu'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' ar ran y Cyngor yn 2013, wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â Chynllun Corfforaethol presennol y Cyngor ar gyfer 2013-2017 a'r fframwaith gwella a pherfformiad cysylltiedig. Mae'r argymhellion hyn wedi llywio dull gweithredu cadarnach y Cyngor o ran cynllunio busnes, cynllunio ariannol a rheoli perfformiad ers mis Hydref 2013.

4. Roedd adroddiad Adolygiad Cymheiriaid CLlLC, a nodwyd gan y Cabinet ar 10 Hydref 2013, yn cydnabod *"bod Cynllun Corfforaethol* [2013-2017] *yn ddogfen helaeth y byddai'n fuddiol ei grynhoi'n gyfres o amcanion byrrach a chroywach sy'n hawdd eu deall ac yn hawdd eu cyfleu'n fewnol*

*ac yn allanol."* Nododd canfyddiadau adroddiad yr Adolygiad Cymheiriaid yr angen i ddatblygu blaenoriaethau clir, ac ategu'r rhain drwy wella trefniadau cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol, rheoli perfformiad a newidiadau o ran diwylliant y sefydliad.

5. Yn ogystal, roedd Llythyr Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2011/12, a nodwyd hefyd gan y Cabinet ar 10 Hydref 2013, yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Ymhlith y rhain roedd yr angen i'r Cynllun Corfforaethol nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella yn gliriach, a sut mae'r Cyngor yn mesur targedau a chanlyniadau perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn. Roedd hefyd angen i'r Cyngor ddarparu rhagor o wybodaeth am sut roedd y gwaith o ddatblygu amcanion y Cynllun Corfforaethol yn gysylltiedig ag ymgynghori â dinasyddion ac ymgysylltu â hwy.

**Materion**

6. Cafodd Cynllun Corfforaethol 2013-2017, y cytunwyd arno gan y Cyngor ym mis Chwefror 2013, ei adolygu a'i ddiwygio er mwyn cynhyrchu dogfen gryno â ffocws sy'n seiliedig ar weledigaeth wleidyddol glir y Weinyddiaeth a'r tair blaenoriaeth ar gyfer Caerdydd, sef:

- Datblygu economaidd i sbarduno twf a swyddi;
- Addysg a sgiliau ar gyfer pobl o bob oedran fel eu bod yn gwireddu eu potensial ac yn barod ar gyfer cyflogaeth o fewn economi Caerdydd a thu hwnt;
- Cynorthwyo oedolion, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn cyfnodau o gynildeb.

7. Mae'r blaenoriaethau strategol hyn wedi'u cyfleu'n eang yn fewnol ac yn allanol ac wedi'u cymeradwyo gan ddinasyddion fel rhan o broses y Cyngor o ymgynghori ac ymgysylltu ar ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb, sef 'Dewisiadau Caerdydd', a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2013. O ganlyniad, buont yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu'r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2014-2017, sef **Atodiad A** i'r adroddiad hwn.

8. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y 'llinyn aur' a ddylai fodoli rhwng y canlynol:

- blaenoriaethau;
- cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol;
- trefniadau rheoli ariannol amserol sy'n integreiddio perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau;
- amcanion ar gyfer aelodau o staff unigol a'u perfformiad.

9. Fel rhan o'r dull gweithredu corfforaethol integredig sydd ei angen i gynorthwyo'r broses o weithredu Cynllun Corfforaethol 2014-2017, caiff Cynlluniau Cyflawni unigol newydd eu datblygu ar gyfer Cyfarwyddiaethau, a fydd yn cynnwys amcanion a chanlyniadau manylach ac a fydd yn integreiddio cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau ymhellach. Bydd Cynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau

yn nodi llinellau cyfrifoldeb clir a mwy o atebolrwydd, a byddant yn destun her a chraffu effeithiol gan reolwyr.

10. Bydd Cynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau hefyd yn sicrhau bod holl amcanion timau ac amcanion cyflogeion unigol yn gyson â blaenoriaethau strategol allweddol y Cyngor. Bydd hyn yn cynorthwyo ymgyrch barhaus y Cyngor i wella cydymffurfiaeth â gofynion rheoli perfformiad sefydliadol, gan gynnwys Adolygiadau o Berfformiad a Datblygiad Personol.

11. Cynigir llunio Cynllun Datblygu Sefydliadol i'w ystyried gan y Cabinet yn y dyfodol a fydd yn ategu'r broses o weithredu Cynllun Corfforaethol 2014-2017 ac, yn benodol, yn canolbwyntio ar sut bydd y sefydliad yn datblygu i fynd i'r afael â heriau yn sgîl toriadau ariannol a gofynion newidiol o ran darparu gwasanaethau.

**Gwella a Monitro Perfformiad**

12. Gwnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('Mesur 2009') ddiwygio'r sail statudol ar gyfer gwella gwasanaethau a chynllunio strategol gan awdurdodau lleol Cymru. Mae Mesur 2009 yn cysylltu lles a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau ac yn ailddiffinio dyletswyddau sylfaenol i fod yn atebol am welliannau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid lleol gydweithio i gyflawni amcanion strategol ac ymgysylltu â dinasyddion. Mae Mesur 2009 wedi datblygu ar sail y gofynion blaenorol ac wedi llunio cysylltiad rhwng y ddwy egwyddor sylfaenol ganlynol:

- **Gwella** – mae hyn yn ymwneud â darparu gwasanaethau dros y byrdymor (1-5 mlynedd) i ddinasyddion, cymunedau a chwsmeriaid. Proses ydyw sy'n helpu i bennu ein blaenoriaethau a chynllunio, monitro, rheoli ac adrodd ar y gweithgareddau hyn yn flynyddol er mwyn eu cyflawni. Cyflawnir hyn drwy'r broses Cynllunio Corfforaethol.

- **Cynllunio Cymunedol** – mae hyn yn ymwneud â chyflawni dros gyfnod llawer hwy (10-15 mlynedd). Proses ydyw sy'n helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i bennu gweledigaeth strategol ar gyfer gwella lles dinasyddion a chymunedau lleol. Mae'n aml yn ymdrin â phroblemau a blaenoriaethau tymor hwy o lawer ac sy'n aml yn fwy cymhleth ac anhydrin o lawer na'r prosesau gwella. Cyflawnir hyn drwy Strategaeth Partneriaeth Integredig sengl Caerdydd, sef 'Beth sy'n Bwysig: 2010:2020 – Y Strategaeth 10 Mlynedd'.

13. Er gwaethaf y gwahaniaethau rhwng 'gwella' a 'chynllunio cymunedol', mae'n bwysig cydnabod nad yw'r naill na'r llall yn gweithio mewn arwahanrwydd. Drwy gysylltu'r ddwy egwyddor mae'n golygu y ceir dealltwriaeth glir o anghenion ein dinasyddion, cymunedau a chwsmeriaid a'r newidiadau a fydd yn sicrhau'r gwelliannau dros amser.

14. Mae Mesur 2009 a Chanllawiau cysylltiedig Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella yn mynd i'r afael â phwysigrwydd sicrhau bod gweithgarwch

gwella awdurdodau lleol yn cyfrannu at effeithiolrwydd strategol ardal, ond maent yn bragmatig o ran peidio â phennu dyletswydd ddiamod i wella. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol a manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a'n gallu er mwyn eu diwallu a'u cyflawni. I ategu hyn, llywiwyd y broses o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2014-2017 gan y saith amcan sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan Bartneriaeth Caerdydd, fel y nodwyd yn y Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig'. Caiff cyfraniad yr Awdurdod i gyflawni'r canlyniadau hyn eu hesbonio'n llawn yng Nghynlluniau Cyflawni Unigol y Cyfarwyddiaethau.

15. Caiff dull gweithredu'r Cyngor ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio a nodwyd ym Mesur 2009, gan ganolbwyntio'n benodol ar allu'r Cyngor i gynllunio ar gyfer gwella a'i gyflawni. Yn ogystal, mae Adroddiad Gwella Blynyddol statudol y Cyngor, a gyhoeddir ym mis Hydref, yn adroddiad adolygol ar berfformiad blynyddol yn erbyn blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol.

16. Mae Cynllun Corfforaethol 2014-2017 yn nodi "Blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer Gwella", sy'n seiliedig ar amcanion gwella 2013/2014 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 10 Hydref 2013, ynghyd â blaenoriaeth ychwanegol sy'n ymwneud â Datblygiad Sefydliadol. Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i lywio gan y canlynol hefyd: argymhellion adroddiad Adolygiad Cymheiriaid CLlLC; amcanion cydraddoldeb strategol; a'r amcanion penodol a nodwyd yn y Cytundeb Canlyniadau ar gyfer 2013-2016 y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Caiff dogfen fatrics ategol ei datblygu i'w chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol i egluro'r cysylltiadau rhwng y Cynllun Corfforaethol a dogfennau strategol allweddol eraill.

**Bodloni ein Gofynion**

17. Caiff holl bolisïau a strategaethau pwysig y Cyngor eu sgrinio gan ddefnyddio'r Offeryn Sgrinio Statudol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion statudol perthnasol. Bu'r Cynllun Corfforaethol yn destun yr ymarfer hwn.

18. Mae cwblhau proses yr Offeryn Sgrinio Statudol yn sicrhau bod holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Caerdydd yn cyflawni'r holl rwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Mae hyn yn ystyried agweddau pwysig ar ddatblygu polisïau megis Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol, gan roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ymhlith eraill. Mae hefyd yn sicrhau y gwneir cysylltiadau priodol â'r cynllun integredig sengl (Beth sy'n Bwysig).

**Cyhoeddi**

19. Caiff Cynllun Corfforaethol 2014-2017 a'r dogfennau ategol perthnasol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cyflwyno i sefydliadau partner a rhwydweithiau eraill megis Cyngor Ieuenctid Caerdydd a fforymau 50+.

Yn ogystal, ar ôl i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 27 Chwefror 2014, cynigir llunio fersiwn 'hawdd i'w darllen' o Gynllun Corfforaethol 2014-2017 i'w dosbarthu i grwpiau a dargedir, a chaiff rhagor o wybodaeth gyhoeddus ei chyhoeddi yn Llais y Ddinas ddiwedd mis Mawrth 2014.

20. Cyn i'r Cabinet ystyried yr adroddiad hwn, anfonwyd fersiwn ddrafft o Gynllun Corfforaethol 2014-2017 i bum Pwyllgor Craffu'r Cyngor ei hystyried ynghyd â'r cynigion drafft ar gyfer cyllideb 2014/15 yn ystod yr wythnos sy'n dod i ben 14 Chwefror 2014. Caiff manylion unrhyw sylwadau a geir gan bwyllgorau Craffu'r Cyngor ar y ddogfen ddrafft eu cyflwyno i Aelodau'r Cabinet naill ai yng nghyfarfod y Cabinet ar 21 Chwefror 2014 neu cyn hynny.

**Diben yr Argymhellion**

21. Galluogi'r Cyngor i ystyried Cynllun Corfforaethol drafft 2014-2017 ar 27 Chwefror 2014 a'i gyhoeddi ar ôl hynny, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a ddaw yn sgîl hynny.

**Goblygiadau Cyfreithiol**

22. Mae Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 yn nodi rhwymedigaethau'r Awdurdod i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran arfer ei swyddogaethau. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys rhwymedigaethau i gynnal ymgynghoriad eang ac ystyried unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd i wella (sy'n cynnwys unrhyw ganllawiau ar bwy i ymgynghori â hwy a sut i wneud hynny).

23. Cyhoeddwyd y canllawiau yn 2010.

24. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod i nodi ac ymgynghori ar yr amcanion gwella a gymeradwywyd ym mis Hydref 2013 a sut yr adlewyrchir y rhain yng Nghynllun Corfforaethol drafft 2014-2017.

25. Gan ei fod yn rhan o'r fframwaith polisi strategol, mater i'r Cyngor benderfynu arno yw p'un ai i fabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol drafft.

26. Rhaid i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau sector preifat dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol sector cyhoeddus Cymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, wrth wneud penderfyniadau rhaid i Gynghorau roi ystyriaeth briodol i'r angen i wneud y canlynol, sef (1) dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hybu cyfle cyfartal a (3) meithrin cydberthnasau da ar sail nodweddion gwarchodedig.

27. Mae'r nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:
- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd

- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Statws priodasol a phartneriaethau sifil
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

28. Cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniad wedi deall effeithiau posibl unrhyw benderfyniad o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau cymesur a rhesymegol sy'n rhoi ystyriaeth briodol i ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus.

29. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r cynigion perthnasol ac mae'n rhan o'r Offeryn Sgrinio Statudol (Atodiad B).

30. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a rhoi ystyriaeth briodol iddo cyn gwneud y penderfyniadau a argymhellir yn yr adroddiad.

31. Mae angen ystyried asesiadau eraill wrth drafod p'un ai i fabwysiadu polisi neu strategaeth, gan gynnwys p'un a oes angen cynnal asesiad amgylcheddol strategol, a goblygiadau Mesur y Gymraeg. Cynhelir yr asesiadau hyn yn unol â'r Offeryn Sgrinio Statudol (atodiad B) a dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau roi ystyriaeth briodol i'r asesiadau hynny.

**Goblygiadau Ariannol**

32. Mae'r adroddiad hwn yn nodi Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer y cyfnod hyd at 2017. Bydd goblygiadau ariannol i weithredu blaenoriaethau strategol y Cyngor a'r amcanion cysylltiedig, a dylid eu cynnwys yng nghyllideb y Cyngor a'r cynllun ariannol tymor canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor. Bydd angen llunio rhagor o adroddiadau ar rai o'r amcanion a nodwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn gallu pennu'r goblygiadau ariannol manwl pan ddaw rhagor o wybodaeth i law.

**Ystyriaeth gan y Cabinet**

33. Ar 21 Chwefror 2014 awdurdodwyd y Prif Weithredwr gan y Cabinet i wneud unrhyw ddiwygiadau gofynnol i'r Cynllun Corfforaethol drafft ac, drwy ymgynghori ag Arweinydd y Cyngor, ystyried y farn a fynegwyd gan Bwyllgorau Craffu'r Cyngor, er mwyn llunio'r adroddiad terfynol i'w ystyried gan y Cyngor (cyflwynir atodlen o unrhyw newidiadau arfaethedig yng Nghyfarfod y Cyngor).

**CYNNIG Y CABINET**

Argymhellir bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:

1. Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2014-2017 fel y'i nodir yn **Atodiad A.**

2. Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud unrhyw newidiadau yn sgîl hynny i'r Cynllun Corfforaethol drwy ymgynghori ag Arweinydd y Cyngor ar ôl i'r Cyngor gytuno ar Gyllideb 2014/15 ar 27 Chwefror 2014.

**Y CABINET**
21 Chwefror 2014

*Atodir yr Atodiadau canlynol:*

Atodiad A - Cynllun Corfforaethol 2014-2017
Atodiad B – Yr Offeryn Sgrinio Statudol